



---

## YSGOL PLAS COCH

---

Mr Osian Jones BA  
Pennaeth Head Teacher  
[www.ysgolplascoch.cymru](http://www.ysgolplascoch.cymru)  
E-bost/E-mail: [mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk)

Rhagfyr 21ain 2021

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Ar ddiwedd tymor sydd wedi bod yn un gwahanol ac ar adegau yn heriol iawn, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn ystod y tymor. Er gwaethaf effaith y pandemig, yn enwedig tua diwedd y tymor, rydym wedi llwyddo i gadw pethau mor normal a phosib i'r disgyblion ers mis Medi ac hynod o ddiolchgar i chi am eich rhan yn hyn.

Hoffwn ddiolch i'r disgyblion am fod mor wydn gan gario ymlaen â bywyd ysgol mewn amgylchiadau digon pryderus ac anodd ar adegau. Mae'n rhaid hefyd talu teyrnged i staff yr ysgol, sydd wedi mynd y filltir ychwanegol yn ystod y tymor i sicrhau nad ydym wedi gorfod cau dosbarthiadau am gyfnodau gyda cymaint o absenoldebau a diffyg staff cyflenwi.

Os bydd eich plentyn yn cael prawf PCR positif dros y gwyliau a fyddech cystal ac ebostio'r ysgol i adael i ni wybod gan fod yr Awdurdod Addysg Lleol am barhau i gadw cofnod o'r achosion positif dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Mae'n siwr i chi glywed yn y cyfryngau dros y dyddiau diwethaf fod ysgolion yn cael dau ddiwrnod sef Ionawr 6ed a 7fed 2022 i baratoi a chynllunio, oherwydd y sefyllfa a ddisgwylir o ran Covid, ar gyfer pan fydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ar Ionawr y 10fed a hefyd i sicrhau fod trefniadau yn eu lle ar gyfer dysgu cyfunol pe bai'r galw'n codi. Gan fod y ddau ddiwrnod yma i fod yn ddiwrnodau Hyfforddiant Mewn Swydd yn wreiddiol, nid yw'n gwneud gwahaniaeth i'r dyddiad y bydd y disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol, sef dydd Llun, Ionawr 10fed. Ni fydd darpariaeth i blant gweithwyr critigol ar y ddau ddiwrnod yma. Fe fydd y ddau ddiwrnod HMS oedd i fod ar Ionawr 6ed a 7fed yn cael eu hail drefnu yn ddiweddarach yn y flwyddyn – fe fyddwn yn eich hysbysu o'r dyddiadau newydd cyn gynted a phosib.

Mae'n debyg erbyn Ionawr y 10fed y bydd yna fesurau Covid pellach y bydd angen i ni eu rhoi yn eu lle / dychwelyd iddynt – byddwn yn gadael i chi wybod beth fydd rhain erbyn yr amser hynny. **Ein bwriad a'n gobaith yw y bydd y disgyblion yn dychwelyd yn llawn i ddysgu wyneb yn wyneb ar Ionawr y 10fed, heb orfod troi at ddysgu cyfunol.**

Gan edrych ymlaen ymhellach i ddiwedd mis Chwefror, **ni fydd yr ysgol ar agor ar ddydd Llun, Chwefror 28ain (dydd Llun ar ôl hanner tymor)**. Mae hyn gan mai dyma'r diwrnod sydd wedi ei osod gan ein clwstwr o ysgolion fel diwrnod i ffwrdd yn lle Mehefin yr 2il, sef diwrnod Jiwibili y Frenhines, gan fod Mehefin yr 2il yn ystod hanner tymor Sulgwyn. Mae'r cais i holl ysgolion Cymru gael diwrnod i ffwrdd wedi dod gan Lywodraeth Cymru.

Gyda dymuniadau gorau i bawb dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd,

Osian Jones